

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 81/2016
DYDDIAD CYHOEDDI: 14/12/2016

Gwerthusiad o Gymunedau Digidol Cymru

Crynodeb

1. Ynglŷn â Chymunedau Digidol Cymru

- 1.1 Rhaglen Llywodraeth Cymru yw Cymunedau Digidol Cymru (CDC) sy'n cael ei chyflawni trwy contract a ddyfarnwyd i Ganolfan Cydweithredol Cymru. Mae'r contract, sydd werth £1.6m (heb gynnwys TAW) yn rhedeg o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2017 ac mae opsiwn i'w ymestyn am ddwy flynedd bellach. Mae CDC yn adeiladu ar ddwy fenter cynhwysiant digidol blaenorol, sef Cymunedau@EiGilydd a Chymunedau 2.0.
- 1.2 Yn wahanol i'r rhaglenni a'i rhagflaenodd, mae CDC yn mabwysiadu dull mwy anuniongyrchol o fynd ati i ddelio ag effeithiau allgau digidol, a hwyluso a chydlynw gweithgarwch cynhwysiant digidol yw ffocws y rhaglen. Bwriedir felly i'r rhaglen CDC gydategu amrywiaeth eang o weithgareddau ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector yng Nghymru er mwyn cwtogi ar allgau digidol, a helpu i gyflawni'r amcanion polisi a bennwyd yn Fframwaith a Chynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru.

2. Nodau a methodoleg ymchwil

- 2.1 Nod y gwerthusiad hwn oedd canfod effeithiau'r CDC sy'n dechrau dod i'r amlwg, gan gynnwys ffurf strwythurol y rhaglen a'i harferion gweithredol, yn ogystal â'i heffeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithredol.
- 2.2 Defnyddiwyd ystod o ddulliau gan gynnwys adolygiad llenyddiaeth o ddogfennau rhaglen a pholisi a gwybodaeth monitro. Cwblhawyd ymchwil sylfaenol gyda sampl o 50 sefydliad partner sydd wedi cael cymorth gan raglen CDC. Cwblhawyd ymchwil hefyd gyda:
 - Staff a gwirfoddolwyr rheng-flaen a hyfforddwyd gan y rhaglen (trwy gyfweiliadau lled-strwythuredig, gwaith arsylwi a holiadur ar-lein)
 - Defnyddwyr gwasanaeth oedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cefnogi cynhwysiant digidol a gynigir gan sefydliadau partner CDC
 - Rhanddeiliaid y rhaglen gan gynnwys staff Canolfan Gydweithredol Cymru, swyddogion Llywodraeth Cymru ac aelodau Bwrdd Rhaglen Cynhwysiant Digidol Cymru.

3. Canfyddiadau allweddol

Cyd-destun Polisi a Rhaglen

- 3.1 Roedd y prif ddogfennau polisi Cymreig oedd ar waith pan gynlluniwyd CDC yn amlwg yn gefnogol i barhau gydag ymyrraeth o du'r sector cyhoeddus i leihau lefelau allgau digidol ymysg grwpiau allweddol.
- 3.2 Mae Fframwaith Strategol a Chynllun Cyflawni diwygiedig Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflawni Cynhwysiant Digidol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016, yn cydnabod y bu cyflawniadau pwysig wrth fynd i'r afael â lleihau allgau digidol ond bod mwy eto sydd angen ei wneud.
- 3.3 Mae data yn dangos fod gan tua 84 y cant o aelwydydd Cymru fynediad i'r rhyngwrdd¹. Mae hyn yn gynydd o tua 18 pwynt canran ers 2010 ond mae'r data yn dangos darlun cymharol sefydlog rhwng 2015 a 2016 sy'n awgrymu y gallai'r aelwydydd sy'n weddill fod yn anos eu 'troi'.
- 3.4 Mae Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol ar gyfer Cymru yn amlygu cyfleoedd posibl sy'n gysylltiedig â thechnoleg o ran yr agenda iechyd ehangach.
- 3.5 Bydd goblygiadau cyhoeddiad Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Gymunedau a Phlant² i ystyried dirwyn y Rhaglen Gymunedau yn Gyntaf i ben yn golygu y bydd angen ystyried yn ofalus unrhyw effaith posibl ar sut mae CDC yn cael ei weithredu, ac ar weithgarwch ehangach o ran gwasanaethau cefnogi cynhwysiant digidol mewn cymunedau difreintiedig.
- 3.6 Mae Rhaglen Llywodraethu (2016-2021)³ yn ategu'r ymrwymiad polisi lefel uchel i gynhwysiant digidol.

Dyluniad a sail resymegol y rhaglen

- 3.7 Prif argymhelliad y gwerthusiad adolygol o Gymunedau 2.0 oedd y dylai Llywodraeth Cymru edrych i ddyrannu adnoddau ar gyfer rhaglen olyn sy'n gweithredu fel eiriolwr cynhwysiant digidol, gan weithio gyda a thrwy sefydliadau partner yn y sector cyhoeddus, preifat a thrydydd sector, ond na fyddai'n cyflawni gweithgareddau rheng-flaen ei hunan.
- 3.8 Disgrifiodd manyleb rhaglen CDC y dystiolaeth glir o angen, a'r cyd-destun gweithredol ar gyfer y rhaglen. Aeth ati hefyd i osod cyfres o nodau blaenoriaeth, amcanion penodol ac anghenion penodol a oedd yn cyd-fynd yn gyfan gwbl â'r gywyr polisi allweddol ar y pryd, a'r gwersi a ddysgwyd o'r gwerthusiad blaenorol.
- 3.9 Pennodd y fanyleb becyn o bedwar dangosydd perfformiad allweddol (DPA) ar gyfer CDC a thargedau ar gyfer y cyfnod o ddwy flynedd. Roedd y rhain yn cynnwys:
 - Nifer o sefydliadau a gynorthwywyd (targed o 800)
 - Nifer o unigolion a gynorthwywyd gan sefydliadau cymorth i ymgysylltu â thechnoleg (targed o 30,000)

¹ Ofcom, Adroddiad Y Farchnad Gyfathrebu Cymru 2016

² Gwnaed ar 13eg o Hydref 2016

³ Llywodraeth Cymru, Symud Cymru Ymlaen, Medi 2016.

- Nifer o unigolion a gynorthwywyd gan sefydliadau cymorth i fod yn fwy cyflogadwy (targed o 1,000)
 - Nifer o wirfoddolwyr a recriwtiwyd (targed o 1,000) ac a ddefnyddiwyd (targed o 1,000).
- 3.10 Dangosodd ymchwil ansoddol gyda'r sefydliadau partner a rhanddeiliaid CDC fod lefel uchel o gefnogaeth i'r rhesymeg a'r newidiadau a wnaed i ddyluniad y rhaglen (o'i gymharu â Chymunedau 2.0).

Y rhaglen ar waith

- 3.11 Roedd y cynnig a gyflwynodd Canolfan Cydweithredol Cymru i gyflawni CDC yn cynnwys pecyn priodol o weithgareddau, a oedd yn bodloni'r meini prawf a bennwyd ym manyleb Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen.
- 3.12 Roedd y cynllun staffio a gynigiwyd yng nghais Canolfan Cydweithredol Cymru yn briodol, ac yn gyson â graddfa'r gofynion a bennwyd yn y fanyleb wreiddiol.
- 3.13 Bu Canolfan Gydweithredol Cymru yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â sefydliadau 'newydd' o dan CDC, ac wrth barhau â'r perthnasau a ddatblygwyd eisoes ganddynt.
- 3.14 Dangosodd sefydliadau partner ddealltwriaeth glir o'r newid o Gymunedau 2.0 i CDC sy'n awgrymu bod Llywodraeth Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru wedi cyfathrebu'n effeithiol am y gwahaniaethau rhwng y ddwy raglen.
- 3.15 Bu'r gallu i gadw staff gyda phrofiad ac arbenigedd perthnasol (a ddatblygwyd yn ystod Cymunedau 2.0) yn elfen ddefnyddiol wrth gyflawni gwaith CDC. Roedd yr adborth am wybodaeth, proffesiynoldeb a brwdfrydedd y staff, yn arbennig y rheiny oedd yn cyflawni'r hyfforddiant, yn gadarnhaol.
- 3.16 Rpedd cymysgedd o brofiad blaenorol o ymwneud â gweithgarwch cynhwysiant digidol ymysg y sampl o sefydliadau partner. Ar y cyfan, gwelwyd cynnydd nodedig mewn ymwybyddiaeth a chyflawniad o ran y gwahanol fathau o weithgarwch sy'n ymwneud â chynhwysiant digidol, ac yn arbennig o fewn y sector tai cyhoeddus yng Nghymru.
- 3.17 Mae bwriad Llywodraeth Prydain i gyflwyno'r Credyd Cynhwysol ar raddfa eang wedi bod yn ffactor pwysig sydd wedi peri i amrywiaeth eang o sefydliadau partner ymgysylltu â CDC.
- 3.18 Gellir disgrifio'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan sefydliadau partner yn fras mewn pum categori sef: hyfforddiant, paratoi strategaeth cynhwysiant digidol sefydliad-eang (a elwir yn Gynlluniau Gwella Ymgysylltiad â Chynhwysiant Digidol neu DIEIP), caffael offer TG, cefnogaeth wrth weithio mewn partneriaeth a chefnogaeth gyda gwirfoddolwyr.
- 3.19 Ail-ddosbarthwyd yr adnoddau⁴ a etifeddwyd gan Gymunedau 2.0 mewn ffordd briodol a doedd dim unrhyw broblemau mawr yn codi gyda'r broses a ddefnyddiwyd. Serch hynny, cymysg fu'r ymateb o ran defnydd a defnyddioldeb yr offer.
- 3.20 Yr hyfforddiant cynhwysiant digidol y mae CDC wedi ei gynnig yw elfen fwyaf poblogaidd y pecyn cymorth y mae'r sefydliadau partner wedi manteisio arno, o lawer. Mae'r adborth a gafwyd ar ansawdd a pherthnasedd yr hyfforddiant wedi bod yn rhagorol, gyda'r modd roedd hyfforddiant wedi ei deilwra i sefyllfa yn cael ei werthfawrogi yn arbennig. Darparwyd yr hyfforddiant mewn ffordd niwtral o ran technoleg yn unol ag amcanion Fframwaith y Strategaeth Cynhwysiant Digidol i Gymru.
- 3.21 Mae ymwybyddiaeth am y DIEIPs, a'u gwerth canfyddedig yn isel, hyd yn oed ymysg y sefydliadau partner lle mae cynllun yn bodoli. Amrywiol fu ansawdd a chysondeb y DIEIPs

⁴ Cliniaduron a thabledi oedd y rhain yn bennaf

hefyd, ac mae yna le i wneud gwelliannau sylweddol yn y cyswllt hwn. Mae Llywodraeth Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru eisoes yn ymwybodol o'r mater, ac mae hyn wedi sbarduno gwelliannau allweddol i broses y DIEIPs.

- 3.22 Mae 150 o sefydliadau wedi llofnodi'r Siarter ers ei lansio yn Chwefror 2016. Dylid gweld hyn fel offeryn defnyddiol i gydategu'r DIEIPs ond ni ddylai gymryd ei le.
- 3.23 Yn yr achosion lle mae CDC wedi cynorthwyo gyda darganfod a hyfforddi gwirfoddolwyr, a'u gosod yn llwyddiannus mewn sefydliadau partner, ceir priodoldeb clir i ystod o ddeilliannau cadarnhaol. Mae cyfle i'r elfen yma o'r rhaglen gael ei gryfhau ymhellach trwy osod mwy o wirfoddolwyr mewn sefydliadau.
- 3.24 Hyd yn hyn, mae gwaith rhaglen mewn perthynas ag iechyd wedi cael croeso da, ac mae gan hyn y potensial i wneud cyfraniad positif at yr amcanion polisi a bennwyd yn Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol ar gyfer Cymru Llywodraeth Cymru.
- 3.25 Mae gwefan y Rhaglen yn llawn gwybodaeth, ac mae hi wedi cael ei dylunio'n dda. At hynny, mae yna dystiolaeth bod gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol CDC yn dylanwadu ar drafodaethau am gynhwysiant digidol gyda CDC yn cyrraedd yn agos i'r brig fel un o'r 'brandiau mwyaf dylanwadol' sy'n siarad am gynhwysiant digidol a hygyrchedd⁵.

Perfformiad

- 3.26 Mae dau o'r DPA (sy'n ymwneud ag unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau) yn anuniongyrchol. Ychydig iawn o reolaeth sydd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru dros fonitro'r rhain, ac mae angen iddynt ddibynnu ar yr amcangyfrifon y mae'r sefydliadau partner yn eu darparu yn hyn o beth. Rydyn ni'n fodlon bod systemau monitro ac archwilio priodol yn bodoli i ddilysu'r allbynnau yma gymaint ag y bo hynny'n ymarferol bosibl. Fodd bynnag, mae yna gwestiwn sylfaenol ynghylch gwerth ychwanegol y DPA o ystyried y graddau cyfyngedig y gellir disgwyl i unigolion neilltuo neu briodoli unrhyw effeithiau cadarnhaol i CDC.
- 3.27 Yn ei gyfanrwydd, mae perfformiad yn erbyn targedau hyd yma yn gadarnhaol, ac mae'r targedau penodol ynghylch cynorthwyo sefydliadau a recriwtio gwirfoddolwyr yn debygol o gael eu cyrraedd dros gyfnod dwy flynedd y contract.
- 3.28 Nid yw'r targed a osodwyd ar gyfer DPA ynghylch defnydd gwirfoddolwyr (sydd wedi ei osod ar yr un lefel a recriwtio gwirfoddolwyr) yn cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â 'gosod' gwirfoddolwyr a recriwtiwyd. O ganlyniad, mae'n annhebygol iawn y bydd y targed yma wedi ei gyrraedd erbyn diwedd cyfnod y contract presennol.
- 3.29 Mae'r rhaglen wedi llwyddo gweithio ar draws 22 awdurdod lleol Cymru gan sicrhau croestoriad daearyddol addas.
- 3.30 O ran gwariant y rhaglen, bu tanwariant hyd yn hyn oherwydd materion staffio, ond mae'r perfformiad ariannol cyffredinol o fewn paramedrau derbyniol. Mae'r costau fesul sefydliad a gynorthwywyd a gwirfoddolwyr a recriwtiwyd yn gyson â'r rhai a rhagwelwyd wrth roi cymeradwyaeth. Serch hynny, mae'r costau fesul gwirfoddolwyr a ddefnyddiwyd yn llawer uwch na'r disgwyl oherwydd yr heriau a wynebwyd wrth osod gwirfoddolwyr.

⁵ Ffynhonnell: Onalytica.

Deilliannau ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg

- 3.31 Un o ddeilliannau allweddol y rhaglen hyd yn hyn yw'r gwelliant canfyddedig a welwyd o ran ymwybyddiaeth am gynhwysiant digidol a gwybodaeth staff a'r gwirfoddolwyr yn arbennig. Priodolwyd y cynnydd mewn gwybodaeth i'r hyfforddiant CDC yn bennaf.
- 3.32 Mewn rhai achosion, mae rhaglen CDC wedi helpu gwella capasiti'r sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau cynhwysiant digidol allgymorth mwy hyblyg. Er hynny, dim ond nifer cymharol fychan o'r 50 sefydliad partner yn y sampl gwerthuso oedd yn medru priodoli'r cynnydd yma i'r rhaglen ei hun. Yn y cyd-destun yma, roedd priodoliad ar ei gryfaf lle'r oedd CDC wedi cynorthwyo gyda gosod a hyfforddi gwirfoddolwyr ychwanegol i gynyddu capasiti a gallu.
- 3.33 Mae'r gwaith a wnaed gan CDC i sefydlu ac adfywio partneriaethau digidol lleol yn ychwanegu gwerth ac wedi arwain at drefniadau cydweithio cadarnach mewn rhai ardaloedd.
- 3.34 Mewn nifer cyfyngedig o achosion, mae gwaith gan y rhaglen CDC wedi arwain at sefydliadau partner yn gwneud newidiadau clir ar lefel sefydliadol. Yn yr achosion hyn, roedd gweithredu DIEIP ystyrlon, mabwysiadu'r Siarter Ddigidol a'u cysylltiad â phartneriaeth leol oll wedi cyfrannu.
- 3.35 Roedd anawsterau sylweddol wrth geisio cyrraedd at 'defnyddwyr' trwy'r sefydliadau partner fel rhan o'r broses gwerthuso. Fel y disgwyl, nid oedd defnyddwyr yn ymwybodol o CDC. Er nad oedd hyn yn annisgwyl i ni, roedd hi'n golygu y bu hi'n anodd sefydlu priodoledd uniongyrchol i'r rhaglen, gyda'r gwaith maes ond yn cynhyrchu tystiolaeth gyfyngedig am sut roedd y rhaglen yn achosi deilliannau neu effeithiau cadarnhaol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau.
- 3.36 Darparodd defnyddwyr gwasanaeth adborth cadarnhaol am y gweithgareddau cynhwysiant digidol a ddarparwyd gan sefydliadau partner, ac roeddent yn medru adnabod ystod o ganlyniadau cadarnhaol, canolradd neu 'feddal' yn bennaf, megis magu hyder a llai o deimladau o arwahaniad.
- 3.37 Mae natur anuniongyrchol y rhyngweithio â defnyddwyr y gwasanaeth yn codi'r mater syflaenol o ran a ddylid ystyried bod yr unigolion hyn yn fuddiolwyr y rhaglen CDC ai peidio.

Cysylltiadau â Mentrau eraill yng Nghymru a'r DU

- 3.38 Mae Uned Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda fforymau a mentrau cynhwysiant digidol DU-eang i ledaenu dysg ac arferion da o raglen CDC, ac i helpu i fwydo meddylfryd ehangach o ran polisi.
- 3.39 Mae rhai cyfleoedd tymor byr a chymharol hawdd i CDC gysylltu yn agosach a rhannu gwersi pellach gyda menter Cyflymu Cymru (e.e. er mwyn cynorthwyo mentrau cymdeithasol a chyflawni ymchwil 'sganio'r gorwel').

Y Dyfodol

- 3.40 Dadleuodd y mwyafrif o'r rhanddeiliaid a'r sefydliadau partner yr ymgynghorwyd â nhw yn rhan o'r gwerthusiad hwn o blaid parhau â'r ymyrraeth ac ymestyn rhaglen CDC. Roedd eu safbwyntiau'n seiliedig ar y darlun sy'n dechrau dod i'r amlwg mewn perthynas â chyflwyniad ehangach y Credyd Cynhwysol, a data sy'n ymwneud â dieithrwyd digidol yng Nghymru sy'n dangos bod y mater yn parhau i gyfran fechan ond arwyddocaol o boblogaeth Cymru.
- 3.41 Dadleuodd y bobl hynny a oedd o blaid parhau â'r ymyrraeth y dylai elfen hyfforddiant CDC barhau, ond y dylid gwneud rhagor i godi ymwybyddiaeth am y cymorth arall sydd ar gael,

gyda ffocws penodol ar sicrhau bod y rhaglen yn dwyn etifeddiaeth gynaliadwy o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn cynhwysiant digidol dros y degawd diwethaf.

4. Argymhellion

Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru fanteisio ar yr opsiwn i ymestyn y contract ar gyfer cyflawni CDC am ddwy flynedd arall hyd Fawrth 2019.

Argymhelliad 2

Dylai ffocws y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod estynedig (blynyddoedd tri a phedwar) fod yn gadarn ar greu etifeddiaeth gynaliadwy ar gyfer buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn cynhwysiant digidol dros y degawd diwethaf. Yn hynny o beth, dylai'r rhaglen barhau i gynnig hyfforddiant i staff y rheng flaen a gwirfoddolwyr wrth ddwysau'r ymdrechion i gynhyrchu adnoddau, cynnwys a deunyddiau hyfforddi a all gael eu rhyddhau i bawb ar-lein. Dylai Canolfan Cydweithredol Cymru ddwysáu ei hymdrechion hefyd i helpu i ddiogelu lleoliadau ar gyfer y gwirfoddolwyr a recriwtiwyd eisoes gyda'r sefydliadau partner. Mae hyn yn debygol o olygu mwy o weithgarwch ategol gyda sefydliadau sydd eisoes yn bartneriaid, ac ychydig bach yn llai o bwyslais ar recriwtio sefydliadau partner newydd Bydd angen i'r DPA ar gyfer cyfnod estynedig y prosiect adlewyrchu hyn.

Argymhelliad 3

Ym mlynnyddoedd tri a phedwar, dylai fod yna ffocws clir ar barhau i wella ansawdd a chysondeb y DIEIPS fel cynnyrch etifeddol y rhaglen CDC yn unol â'r bwriad gwreiddiol iddynt fod yn strategaethau sefydliad-eang. Mae angen i'r dogfennau hyn fod yn fwy strategol a chynhwysfawr eu natur, ac mae angen i'r 'trosglwyddiad' i sefydliadau partner fod yn fwy trylwyr, fel bod staff ar bob lefel yn ymwybodol beth y gallant ei wneud i brif-ffrydio a chynorthwyo cynhwysiant digidol, a sut y mae angen iddynt fynd ati i wneud hynny. Dylai'r gwaith yma gydategu'r Siarter Cynhwysiant Digidol.

Argymhelliad 4

Dylai swyddogaeth CDC wrth gydlyn a datblygu partneriaethau barhau. Rhan ychwanegol o'r gwaith yma dros y ddwy flynedd nesaf fydd cynorthwyo partneriaid lleol i glustnodi ac asesu effeithiau unrhyw benderfyniad a wneir yn y dyfodol i ddileu Cymunedau yn Gyntaf ar y darlun o ran cynhwysiant digidol. Ar lefel ehangach, dylai'r pwyslais for ar sicrhau bod partneriaethau lleol yn hunangynhaliol, a'u bod mewn sefyllfa i barhau â'u gwaith heb fod angen ymyrraeth barhaus. Dylid parhau i ddatblygu a chydlyn partneriaethau er mwyn ymchwilio ymhellach i fanteision technoleg yng nghyd-destun iechedd a gofal cymdeithasol yn ystod y cyfnod cyflawni estynedig.

Argymhelliad 5

Os bydd Llywodraeth Cymru'n penderfynu dewis ein hargymhelliad cyntaf ac ymestyn CDC, dylid diwygio a chywreinio'r pecyn o DPA ar gyfer y rhaglen. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru:

- a) Ailystyried a yw'r DPA anuniongyrchol o ran 'unigolion a ymgysylltwyd', sy'n ymwneud â defnyddwyr y gwasanaeth, yn ystyrion ac yn ychwanegu gwerth, ac a ellir cyfiawnhau'r gwaith monitro sy'n gysylltiedig â'r agwedd yma ar y rhaglen. Ein hargymhelliad ni yw y dylid rhoi'r gorau i'r rhain, ac y dylid asesu effaith bosibl yr hyfforddiant yn nhermau'r math o

ddefnyddwyr gwasanaethau rheng flaen a allai elwa ar y peth o'r bron yn rhan o strategaethau cynhwysiant digidol sefydliad-eang cadarnach, a'u nifer

b) Cywreinio'r DPA sy'n ymwneud â gwirfoddolwyr er mwyn canolbwyntio'n fwy ar osod a defnyddio gwirfoddolwyr ym mlynnyddoedd tri a phedwar. Targed realistaidd, ond uchelgeisiol fyddai bod 50-60 y cant o'r gwirfoddolwyr sy'n cael eu recriwtio yn cael eu lleoli a'u defnyddio i gyflawni gweithgarwch cynhwysiant digidol

c) Ystyried disodli'r DPA ar gyfer 'unigolion a ymgysylltwyd' â dangosyddion sy'n cyd-fynd yn well â ffocws etifeddol blynyddoedd tri a phedwar. Yn benodol, byddem yn argymhell cyflwyno dangosydd sy'n ymwneud â sefydliadau partner yn mabwysiadu DIEIPs cynhwysfawr, a dangosydd sy'n ymwneud â phartneriaethau cynhwysiant digidol yn gweithredu ar sail gynaliadwy (h.y. a allai, ac a fyddai'n parhau heb gymorth allanol parhaus gan CDC)

d) Cadw'r DPA mewn perthynas â sefydliadau newydd a gynorthwywyd, ond pennu targed mwy cymedrol yn hyn o beth sy'n adlewyrchu'r angen am gynnig cyngor ychwanegol i sefydliadau sydd eisoes wedi eu hymgysylltu (e.e. o ran gosod gwirfoddolwyr a chyflawni gwaith ategol ar y camau a bennir yn y DIEIPs mwy manwl).

Awdur: Huw Bryer, Ymchwil OB3 Research



Adroddiad Ymchwil Llawn: Bryer, H; (2016) Gwerthusiad o Rhaglen Cymunedau Digidol Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru Rhif yr adroddiad YGLI 81/2016 || <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-digital-communities-wales/?lang=cy>

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a geir yn yr adroddiad hwn, ac nid o anghenraid farn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Dr Semele Mylona

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: semele.mylona@wales.gsi.gov.uk